**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

24 Chwefror 2021

Annwyl Gadeirydd

**DEISEB P-05-1122 CANIATÁU I RIENI SYDD NEWYDD FABWYSIADU FFURFIO SWIGEN GEFNOGAETH YN Y CYFYNGIADAU LEFEL RHYBUDD 4**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 5 Ionawr sy'n gofyn am fy marn ynghylch y gallu i rieni sydd newydd fabwysiadu ffurfio swigen gefnogaeth yn y cyfyngiadau lefel rhybudd 4.

Rydym yn cydnabod bod Covid-19 yn parhau i effeithio ar ein bywydau bob dydd ac rydym yn gwybod bod rhieni newydd yn wynebu heriau ychwanegol yn sgil y cyfyngiadau presennol.

Rwy'n cydnabod bod mabwysiadu yn arbennig o heriol yn y sefyllfa bresennol gyda'r cyfyngiadau yn ei gwneud yn anos cael at gymorth ar adegau. Mae'r pandemig hefyd wedi creu heriau ac ansicrwydd tebyg i lawer o bobl yng Nghymru. O ganlyniad, mae ein deddfwriaeth yn nodi y caiff unrhyw un gael cymorth ar sail dosturiol, pan fo arno ei angen a chan bwy bynnag y mae arno ei angen ar y pryd e.e. gan ffrindiau a theulu.

Mae'r ddarpariaeth hon yn ddigon hyblyg i alluogi unrhyw un sy'n teimlo ei fod angen cymorth yn y cyfnod hwn i geisio cymorth. Mae hyn yn cynnwys teuluoedd sydd newydd fabwysiadu ac sydd angen cymorth. Nodir hyn yng Nghanllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru sydd ar gael yma:
https://llyw.cymru/ymweld-phobl-mewn-cartrefi-preifat-lefel-rhybudd-4

Er y caniateir cymorth ychwanegol, rwy'n annog pawb i ystyried yn ofalus beth yw'r peth mwyaf synhwyrol i'w wneud i ddiogelu eu teulu, eu ffrindiau a'u cymuned.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae’r rhain yn benderfyniadau anodd ac rydym bob amser yn ceisio cadw cydbwysedd rhwng anghenion unigol pobl a’n cyfrifoldeb i ddiogelu iechyd y boblogaeth a helpu i achub bywydau.

Rwy’n ymwybodol bod y pandemig yn anffodus yn rhoi straen ychwanegol ar deuluoedd sy’n mabwysiadu yng Nghymru. Mae ein hasiantaethau mabwysiadu yng Nghymru ar gael i gynnig cymorth a chyngor i deuluoedd drwy gydol y pandemig ac mae’r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i deuluoedd sy’n mabwysiadu ynglŷn â chael cymorth yn ystod pandemig Covid-19.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**